



Optometry Wales Optometreg Cymru

I'W RYDDHAU AR 15fed Hydref 2025

Mae Optometreg Cymru yn croesawu cwblhau trafodaethau llwyddiannus.

Mae'n bleser gan Optometreg Cymru gyhoeddi bod trafodaethau contract 2025/26 gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi dod i ben yn llwyddiannus. Mae'r broses gydweithredol hon yn gam sylweddol arall ymlaen o ran gwella gwasanaethau gofal llygaid ledled Cymru.

Ers cyflwyno'r contract optometreg newydd, mae Optometreg Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru. Mae diwedd y trafodaethau eleni wedi arwain at fwy o gefnogaeth, yn arbennig o ran canolbwyntio ar wasanaethau clinigol craidd a ddarperir gan bractisau optometreg gofal sylfaenol sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau ac yn y cartref.

Mae'r trafodaethau ar gyfer eleni hefyd yn cynnwys optometreg yn cyd-fynd â phroffesiynau gofal sylfaenol eraill mewn perthynas â rhoi sicrwydd i GIG Cymru ar Lywodraethiant Gwybodaeth i gefnogi cleifion sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai gofal eilaidd i optometreg gofal sylfaenol.

Mae Optometreg Cymru a Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo gallu optometryddion ac optegwyr dosbarthu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn eu cymunedau lleol ers amser maith. Daw'r buddsoddiad newydd hwn ddwy flynedd ar ôl diwygiadau sylweddol i wasanaethau optometreg yng Nghymru a gweithredu'r contract optometreg newydd, sy'n tanlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am wasanaethau llygaid yn yr ysbytai, a'r sgiliau sydd ar gael o fewn y gweithlu optometreg a dosbarthu optegyddion.

Bydd y ffioedd a'r cymorth ychwanegol a drafodwyd yn grymuso optometryddion cymunedol ac optegwyr dosbarthu i weithredu ar frig eu trwydded, gan sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn arweinydd o ran darparu gwasanaethau clinigol ac yn parhau i ysgogi diwygio yn y DU wrth leihau rhestrau aros ysbytai a gwella mynediad at wasanaethau.

Dros y 12 mis diwethaf, mae Optometreg Cymru wedi cymryd rhan weithredol mewn deialog adeiladol a chydweithio â GIG Cymru a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo diwygio contractau optometreg. Mae canlyniad y trafodaethau eleni yn gwarantu cefnogaeth bellach i bob darparwr gwasanaeth, gan sicrhau y gall gwasanaethau gofal llygaid y GIG gael eu darparu yn agosach at adref gan optometryddion medrus iawn ac optegwyr dosbarthu.

Mae Optometreg Cymru yn edrych ymlaen at barhau â'i phartneriaeth â Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, gan gofleidio ymgysylltiad rheolaidd drwy gyfarfodydd i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n effeithio ar y proffesiwn yng Nghymru.

Fel y corff cynrychioliadol ar gyfer optometryddion ac optegwyr dosbarthu, mae Optometreg Cymru yn annog pob aelod o'r proffesiwn i ymgysylltu â'u pwyllgorau optometrig rhanbarthol. Mae'r rhyngweithio hwn yn hanfodol i sicrhau bod trafodaethau parhaus yn adlewyrchu'r gweithlu amrywiol a blaengar ledled Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Judy Misra Prif Weithredwr
Optometreg Cymru

Judy.Misra@OptometryWales.com